# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## ıodion y cyfarfod Blynyddol Cyntaf rhithwir a gynhaliwyd ar 24 Mai 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Geraint ap Ifan Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, T Ll Hughes MBE, Llinos Medi, A M Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, G O Jones, John I Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Alun W Mummery, Pip O'Neill, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Dros Dro,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | - |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes a Llio Angharad Owen |

### 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD yn unfrydol ethol y Cynghorydd Dafydd Roberts yn Gadeirydd ar Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2022/23.**

Wrth dderbyn y fraint o gael ei benodi, sicrhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts y Cyngor y byddai'n ymdrechu i gyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd hyd eithaf ei allu. Diolchodd i'w ragflaenydd, y Cynghorydd Glyn Haynes, am gyflawni ei ddyletswyddau dinesig fel Cadeirydd y Cyngor Sir mor anrhydeddus.

Roedd y cyn Gadeirydd, y Cynghorydd Glyn Haynes, wedi anfon ei ymddiheuriadau.

### 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Margaret Murley Roberts yn Is-Gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2022/23.**

Diolchodd y Cynghorydd Margaret Murley Roberts i'w chyd Aelodau am y fraint a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cadeirydd a'i gefnogi gyda'i ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn nesaf.

## 3. CYHOEDDIADAU

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 5. CYFLWYNIAD GAN YMGEISYDD I GEFNOGI EI HENWEBIAD I FOD YN ARWEINYDD Y CYNGOR

Yn unol â Pharagraff 2.7.3.1 y Cyfansoddiad, ac wedi iddi gyflwyno cyflwyniad ysgrifenedig (maniffesto) i'r Prif Weithredwr cyn 5.00pm ar 12 Mai 2022 (a gefnogwyd gan ddau Gynghorydd arall trwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr), rhoddodd y Cynghorydd Llinos Medi gyflwyniad ar ei gweledigaeth a'i gwerthoedd.

## 6. PENODI ARWEINYDD AR GYFER Y CYNGOR SIR

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Llinos Medi yn Arweinydd ar Gyngor Sir Ynys Môn am gyfnod o 5 mlynedd yn unol ag Erthygl 7, ac yn benodol y rheolau gweithdrefn a gynhwysir ym Mharagraffau 2.7.3.1 a 2.7.3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor.**

*(Fe wnaeth y Cynghorwyr Paul Ellis, Jeff Evans, Douglas M Fowlie, A M Jones, Robert Ll Jones, Derek Owen a Liz Wood atal eu pleidlais.)*

## 7. DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod wedi penodi'r Cynghorydd Carwyn Jones i wasanaethu fel Dirprwy Arweinydd.

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2022/23

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau ar gyfer 2022/23.

**PENDERFYNWYD:-**

- **dderbyn penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23;**

- **cadarnhau y bydd deilyddion yr un swyddi â 2021/22 â'r hawl i dderbyn uwch gyflogau o 2022/23, heblaw am swydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu lle bydd y ffioedd a bennir gan y Panel ar gyfer aelodau cyfetholedig yn berthnasol, hy:**

**Cadeirydd y Cyngor**
**Is-gadeirydd y Cyngor**
**Arweinydd y Cyngor**
**Dirprwy Arweinydd y Cyngor**
**Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7)**
**Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf**
**Cadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini (2)**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

- **awdurdodi swyddogion i ddiwygio Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor (Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23.**

## 9. CADARNHAU PWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (is-bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
- Is-bwyllgor Indemniadau

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS**
**CADEIRYDD**